

System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru ([WNWRS](#))

Lawrlwytho data – Rhagfyr 2022

Dydy hi byth rhy gynnar i fewngofnodi a gwirio eich data System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu cyn y dyddiad 'lawrlwytho data' nesaf ar Ragfyr 30 2022. Rydym yn ymwybodol y bydd gan lawer ohonoch amser i ffwrdd haeddiannol wedi'i gynllunio ar ddiwedd mis Rhagfyr, felly cyn i chi adael am gyfnod o wyliau [gwnewch yn siŵr eich bod wedi mewngofnodi i System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu](#) i wirio bod holl fanylion y staff yn gywir. Bydd y dasg syml o fewngofnodi yn dilysu eich data, felly nid oes angen anfon unrhyw wybodaeth atom yn uniongyrchol. Diolch i chi, fel bob amser, am eich cefnogaeth barhaus a'ch cydweithrediad â hyn.

Oriau Capasiti Ychwanegol

Rydym yn falch o gyhoeddi fod nodwedd newydd yn y System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu i helpu i gofnodi oriau Capasiti ychwanegol ar gyfer eich Practis.

Ar y tab dewislen ar y chwith yn y Modiwl Mewnbynnu Data mae maes newydd - Capasiti Ychwanegol. Mae hwn yn cynnwys calendr treigl 12 mis ar ffurf tabl sy'n eich galluogi i gofnodi cyfanswm yr oriau ychwanegol misol ar gyfer aelodau o staff eich practis. Cwblhewch y tabl hwn cyn i chi gyflwyno unrhyw ffurflenni hawlio Capasiti Ychwanegol i'ch Bwrdd Iechyd i'n helpu i ddilysu eich cais.

Mae opsiwn hefyd i roi 'Capasiti Ychwanegol' ar gyfer Math o Contract i aelod o staff. Defnyddiwch yr opsiwn hwn os ydych yn cyflogi aelod o staff at ddibenion oriau Capasiti Ychwanegol **YN UNIG**.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch ynghylch y nodwedd newydd hon, neu os oes gennych unrhyw adborth, cysylltwch â'r tîm trwy'r cyfeiriadau e-bost isod.

Cofnodi Oriau/Sesiynau yn System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu

Yn dilyn adborth gan Reolwyr Practis, mae gan System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu'r opsiwn bellach i gofnodi oriau gwaith aelodau staff drwy nodi nifer y sesiynau neu oriau. Dewiswch yr opsiwn perthnasol yn y gwymplen dan yr adran 'Contract' o'r cofnod staff a dewiswch y nifer gofynnol o oriau neu sesiynau. Y nod yw y bydd hyn yn cynyddu cywirdeb ac yn ei gwneud yn haws cofnodi oriau staff ledled Cymru.

Gwerthoedd a gwerth gwirfoddoli – ein hased cudd

Bydd digwyddiad ar-lein ar gyfer lansiad papur ar werth gwirfoddoli ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gynnal ar 23 Tachwedd. Mae'r papur a gyhoeddwyd gan Gomisiwn Bevan, ar gael i'w [lawrlwytho yma](#).

Mae gwirfoddolwyr bob amser wedi gwneud cyfraniad hanfodol at iechyd a gofal yng Nghymru ond mae ein profiadau yn ystod pandemig Covid 19 wedi gwneud y pŵer a photensial o wirfoddoli yn fwy amlwg. Mae pwysau ar ein system iechyd a gofal a'i gweithlu cyflogedig, yn mynnu ein bod yn ystyried sut y gallwn wneud y fwyaf o botensial ein holl sgiliau ac adnoddau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, yn fwy trylwyr.

Bydd y sesiwn hon yn cyflwyno themâu ac argymhellion y papur [Gwerthoedd a gwerth gwirfoddoli - ein hased cudd](#), a gyhoeddwyd gan gomisiwn Bevan. Byddwn yn clywed gwahanol safbwyntiau, beth allai ei olygu i ddatblygu potensial gwirfoddoli a beth sydd angen ei newid er mwyn i ni wireddu hyn yn llawn.

Mae'r siaradwyr yn cynnwys:

- Judith Paget CBE, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru
- James Johnson Robins, Rheolwr Gwirfoddolwyr, Gweithlu a Datblygu Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Tanya Strange, Pennaeth Nyrsio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cynhelir y digwyddiad gan Helpforce Cymru/CGGC a Chomisiwn Bevan

Am ragor o fanylion cysylltwch â Fiona Liddell fliddell@wcva.cymru.

[Archebwch eich lle yma](#)